Cam 3: Cynnal ymchwil marchnata

Bwriadau dysgu

- Dylunio a chynnal arolwg
- I dynnu siart cylch

Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, cyflwynir y plant i'r cysyniad o ymchwil marchnata fel offeryn busnes i ddarganfod hoffterau cwsmeriaid eu bwyty, eu helpu i benderfynu pa gynhwysyn y dylent serennu yn eu bwyty ac i ddechrau arwain eu dewisiadau ar y fwydlen. Bydd y plant yn dylunio arolwg ac yn dysgu sut i lunio siart cylch i arddangos eu canlyniadau.

Defnyddiau sydd eu hangen

- Onglyddion

Nodiadau cyflwyno

Sleid 2-3: Cyflwyniad i ymchwil marchnata	• Arddangoswch y sleidiau PowerPoint a defnyddio cwestiynu i gyflwyno ymchwil i'r farchnad a sut y gallwn ei ddefnyddio i helpu'r plant i benderfynu pa gynhwysyn seren y dylent ei ddefnyddio fel thema ar gyfer eu bwytai. • Casglwch syniadau am sut y gallai'r plant recordio ac arddangos eu canlyniadau ac egluro eich bod chi'n mynd i ddangos ffordd newydd iddyn nhw o gyflwyno eu canfyddiadau: siartiau cylch.
Sleid 4: Mathau o gwestiynau	• Esboniwch, ar gyfer yr arolwg hwn, bod angen i ni ofyn cwestiynau amlddewis caeedig, gan gynnig ystod fach o opsiynau ateb a gofyn i gyfranogwyr ddewis yr opsiwn yr hoffent ei gael fwyaf. Bydd hyn yn dweud wrthym a fydd pobl eisiau ymweld â'r bwyty ai peidio ac a oes bwlch yn y farchnad y gall ein busnes ei lenwi.
Sleid 5: Mathemateg gydag ystyr	• Mewn grwpiau busnes gallu cymysg, gofynnwch i'r plant ysgrifennu eu cwestiynau ymchwil i lawr e.e. beth yw'r bwyd mwyaf poblogaidd ym Mlwyddyn 6 / CA2 / ein hysgol? Beth yw'r thema bwyty mwyaf poblogaidd yn CA2? • Gofynnwch i'r plant feddwl am gwestiynau caeedig ychwanegol y gallent eu gofyn a fydd yn eu helpu i ddarganfod y ffactorau sy'n bwysig i'w defnyddwyr e.e. pris, ymddangosiad, cynhwysion o ffynonellau lleol ac ati. • Fe allech chi awgrymu bod hanner y plant o fewn pob grŵp yn defnyddio cwestiwn ymchwil ychydig yn wahanol e.e. gallai un pâr gasglu data gan fechgyn blwyddyn 6 a gallai un arall gasglu data gan ferched – bydd hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth iddynt am bwy allai eu marchnad darged fod a fydd yn eu helpu yn nes ymlaen.

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.

Gweithgaredd ymarferol: Casglu data	• Dylai'r plant lunio tabl i gofnodi eu canfyddiadau cyn casglu eu data. • Rhowch gyfle i blant gasglu atebion gan gynifer o blant ā phosib o ystod o grwpiau blwyddyn. • Caniatewch amser i aelodau'r grŵp roi adborth ar eu canfyddiadau i'w grwpiau.
Sleid 6-14: Llunio siart cylch	• Er mwyn ein helpu i ddod i gasgliadau am hoffterau gwahanol grwpiau cyfranogwyr, eglurwch y gallwn lunio siart cylch gan y bydd hyn yn rhoi darlun gweledol i ni o'n data a'i gwneud hi'n haws gweld yr atebion mwyaf poblogaidd. • Gweithiwch trwy'r PowerPoint gyda'r plant i ddangos bob cam o lunio siart cylch i arddangos data canlyniad eu ymchwil marchnata.
Sleid 15: Amser penderfynu	• Gofynnwch i'r plant ddod i benderfyniad terfynol ynghylch beth fydd thema bwyty a chynhwysyn seren eu grŵp. Esboniwch nad oes raid iddyn nhw wneud y dewis mwyaf poblogaidd – gallen nhw geisio apelio i farchnad arbenigol. • Gofynnwch i'r plant ysgrifennu paragraff byr i egluro'r hyn a ddangosodd eu hymchwil marchnad a'r penderfyniad terfynol y daeth eu grŵp iddo.

Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Pwnc	Testun	Amcan
Mathemateg	Ystadegau	• Dehongli ac adeiladu siartiau cylch a graffiau llinell a'u defnyddio i ddatrys problemau • Darlunio ac enwi rhannau o gylchoedd, gan gynnwys radiws, diamedr a chylchedd
Gwyddoniaeth	Gweithio yn Wyddonol	• Cofnodi data a chanlyniadau cymhlethdod cynyddol gan ddefnyddio diagramau a labeli gwyddonol, allweddi dosbarthu, tablau, graffiau gwasgariad, graffiau bar a llinell

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.